| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cynghorydd Gill German, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd |
| **Dyddiad** | Awst 2022 |
| **Swyddog Arweiniol** | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price |
| **Teitl** | Penodi i Banel Maethu Sir Ddinbych ac i Gyd-banel Mabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer penodi Cynghorydd i fod ar Banel Maethu Sir Ddinbych a Chynghorydd i fod ar y Cyd-banel Mabwysiadu.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhaid i Sir Ddinbych benodi cynrychiolydd awdurdod lleol i fod ar y Panel Maethu.

2.2. Mae hefyd yn ofynnol i aelod etholedig addas fod ar Gyd-banel Mabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelod Arweiniol yn cael ei argymell i benodi un Cynghorydd i fod ar Banel Maethu Sir Ddinbych;

3.2 Bod yr Aelod Arweiniol yn cael ei argymell i benodi un Cynghorydd i fod ar Gyd-banel Mabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych; a

3.3 Bod cyfnod y penodiadau hyn yn cyd-fynd â thymor y Cyngor presennol oni phenodir rhywun neu rywrai newydd.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Panel Maethu Sir Ddinbych

4.1. Mae gofyniad cyfreithiol ar Gyngor Sir Ddinbych i sefydlu a gweinyddu Panel Maethu yn unol â gweithdrefnau penodedig. Yr aelod etholedig blaenorol ar y Panel Maethu oedd y Cynghorydd Rhys Thomas.

4.2. Yn unol â'r darpariaethau cyfreithiol sy'n llywodraethu'r Panel Maethu, rhaid i'w aelodaeth gynnwys un aelod etholedig. Nid oes aelod etholedig ar y Panel ar hyn o bryd ac o ganlyniad, gofynnwyd i aelodau Grwpiau'r Cyngor ddatgan eu diddordeb.

4.3. Mae'r Panel Maethu yn cyfarfod tua 12 gwaith y flwyddyn ac mae'r Cynghorydd Andrea Tomlin wedi mynegi ei dymuniad i fod yn aelod awdurdod lleol ar y Panel.

## Cyd-banel Mabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych

4.4 Caiff y Cyd-banel Mabwysiadu ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a rhaid iddo hefyd gynnwys 1 aelod etholedig. Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones oedd yr aelod etholedig blaenorol ar y Panel Mabwysiadu.

4.5 Mae'r Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Andrea Tomlin ac Elfed Williams wedi mynegi dymuniad i fod yn aelod awdurdod lleol ar y Cyd-banel Mabwysiadu.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Panel Maethu a'r Cyd-banel Mabwysiadu yn baneli statudol sy'n cael effaith uniongyrchol ar les plant, teuluoedd a gofalwyr maeth.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Caiff y Panel Maethu ei gefnogi gan dîm Gwasanaethau Plant y Cyngor a chaiff y Cyd-banel Mabwysiadu ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd gan yr aelodau a benodir yr hawl i adennill costau teithio am unrhyw daith a wneir er mwyn bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel .

# 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid yw'r penodiad hwn yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â'r grŵp swyddogion penderfyniadau dirprwyedig gorfodol, yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Gill German, arweinwyr y grwpiau a swyddogion y gwasanaeth ar gynnwys yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni fydd penodi aelod i'r Panel Maethu / y Cyd-banel Mabwysiadu yn creu costau ychwanegol ar wahân i adennill costau teithio. Bydd unrhyw fân gostau ychwanegol yn cael eu talu o'r adnoddau presennol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r Paneli yn gyrff statudol ac mae gofyn i'r awdurdod lleol benodi un aelod etholedig iddynt.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Yn unol â phwerau sydd wedi'u dirprwyo i'r Aelod Arweiniol yn Atodiad 2(b) Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor. Rheoliad 24(3) Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru).